

Gwasanaeth meddyg a benodwyd i roi ail farn (SOAD) – Methodoleg Ddiwygiedig 2022

20 Ebrill 2022

Annwyl gydweithiwr

Methodoleg Ddiwygiedig ar gyfer Ail Farn

Fel y gwyddoch, gwnaethom ysgrifennu atoch ym mis Mawrth 2020, ar ddechrau pandemig COVID-19, yn amlinellu bwriad AGIC i leihau ymweliadau ag ysbytai er mwyn lleihau'r risg i gleifion, staff a'r cyhoedd.

Arweiniodd hyn at weithredu methodoleg o bell COVID-19 ar gyfer y gwasanaeth meddyg a benodwyd i roi ail farn . Wrth inni edrych ar lacio'r cyfyngiadau bellach, rydym yn bwriadu aildechrau ymweliadau yn unol â Chod Ymarfer Cymru (2016), paragraff 25.48, sy'n nodi y bydd “meddygon a benodwyd i roi ail farn yn ymweld â chleifion a gedwir yn yr ysbyty”.

Rydym wedi cynnal asesiadau risg COVID-19 gyda'r meddygon a benodwyd i roi ail farn yn annibynnol a byddwn yn darparu'r holl gyfarpar diogelu personol angenrheidiol iddynt yn ôl yr angen. Rydym yn gofyn i chi roi gwybod i'r tîm Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl ar adeg gwneud cais os oes unrhyw reoliadau COVID-19 penodol y byddai angen i feddyg a benodwyd i roi ail farn fod yn ymwybodol ohonynt wrth dderbyn cais.

Mae AGIC yn bwriadu cadw pob agwedd arall ar y fethodoleg ddiwygiedig gan eu bod wedi profi i fod yn ddiogel, yn effeithlon ac yn gost-effeithiol. Amlinellir y diwygiadau allweddol isod.

Crynodeb o'r weithdrefn ddiwygiedig:

- 1. Meddygon a benodir i roi ail farn yn dechrau ymweld â lleoliadau wyneb yn wyneb eto, gyda'r prif ddiben o gyfweld â'r claf. Gofyniad ychwanegol i leoliadau hysbysu AGIC os oes unrhyw fesurau arbennig ar waith ar gyfer ymweliad â'r safle (cyfyngiadau COVID-19 y tu hwnt i'r arfer).**
- 2. Gofyniad parhaus i wasanaethau iechyd meddwl roi crynodeb o nodiadau meddygol cyfredol y claf wrth gyflwyno cais am ail farn.**
- 3. Parhau â'r arfer o ymgynghori ag Ymgynghoreion Statudol (h.y. gweithwyr meddygol proffesiynol) gan gynnwys y clinigydd cyfrifol, dros y ffôn, neu drwy gyfrwng digidol amgen addas.**
- 4. Gofyn i wasanaethau hysbysu'r meddyg a benodwyd i roi ail farn cyn ymweliad p'un a yw'r claf yn teimlo'n gryf yn erbyn cael ei gyfweld gan feddyg a benodir i roi ail farn. Yn yr achosion hyn, bydd ardystiad o bell heb ymweliad yn dderbyniol.**

Gwasanaeth meddyg a benodwyd i roi ail farn (SOAD) – Methodoleg Ddiwygiedig 2022

5. Bydd meddygon a benodir i roi ail farn yn parhau i gyhoeddi Ffurflenni Ardystio electronig. Bydd AGIC yn parhau i ddilyn canllawiau Llywodraeth y DU ar gyhoeddi llofnodion electronig/digidol.

Y weithdrefn ddiwygiedig ar gyfer gweithio o bell

Rydym yn parhau i'w gwneud yn ofynnol i wasanaethau iechyd meddwl roi crynodeb o faterion cyfredol y claf i AGIC wrth gyflwyno cais am ail farn.

Wrth gyflwyno cais am ail farn, anfonwch y dogfennau isod trwy e-bost diogel, os ydynt ar gael:

- Maen prawf 1: Llinell amser cofnodion dyddiol (lle bo modd).
- Maen prawf 2: Adroddiad diweddaraf y tribiwnlys a/neu'r rheolwr (hyd yn oed os yw hyn yn dyddio o gyfnod cyn derbyn y claf i'r ysbyty)
- Maen prawf 3: Copïau o siartiau triniaeth cyfredol wedi'u sganio.
- Maen prawf 4: Prawf awdurdod cadw (H014 neu debyg)

Gellir anfon y dogfennau hyn dros yr e-bost yn ddiogel o gyfrif nhs.net neu gyfrif e-bost diogel tebyg i: AGIC.RSMH@llyw.cymru

Bydd ymgynghoriadau gyda gweithwyr proffesiynol, gan gynnwys gyda'r clinigwr â chyfrifoldeb, yn cael eu cynnal dros y ffôn neu drwy gyfrwng digidol amgen addas

Efallai y bydd y meddyg a benodwyd i roi ail farn yn dymuno i ymgynghoriadau gael eu cynnal dros y ffôn neu drwy gyfrwng digidol amgen addas, gan gynnwys unrhyw archwiliad gyda'r clinigydd wedi'i gymeradwyo neu'r clinigydd cyfrifol.

Cyfweliad â chleifion.

Y sefyllfa ddiodyn yw y bydd pob cais am feddyg a benodwyd i roi ail farn yn arwain at ymweliad â'r safle er mwyn hwyluso cyfweliad â chlaf. Mae'r gofynion arferol ar ddarparwyr yn berthnasol i hwyluso'r cyfweliadau â meddygon a benodwyd i roi ail farn.

Gofynnwn i ddarparwyr roi gwybod i ni ar adeg gwneud cais am wasanaeth os yw'r claf yn mynegi'n gryf ac yn barhaus ei fod yn erbyn cael ei gyfweld gan feddyg a benodwyd i roi ail farn, er mwyn dileu'r angen am ymweliad â'r safle os oes angen. Fel arall, pe byddai'n well gan y claf gael ymgynghoriad dros y ffôn/telegynadleda, caiff hynny ei ganiatáu yn ôl dewis y claf.

Gwasanaeth meddyg a benodwyd i roi ail farn (SOAD) – Methodoleg Ddiwygiedig 2022

Y meddyg a benodwyd i roi ail farn fydd yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r ail farn ai peidio, yn yr un modd â'r sefyllfa mewn amgylchiadau arferol lle gallai'r claf wrthod gweld y meddyg a benodwyd i roi ail farn.

Rydym hefyd yn gofyn i ddarparwyr roi gwybod i ni ar adeg gwneud cais am wasanaeth os oes unrhyw reoliadau COVID-19 penodol ar waith a allai wahardd ymweliad â'r safle gan y meddyg a benodwyd i roi ail farn.

Rydym yn annog gwasanaethau i barhau i dderbyn copi electronig dros yr e-bost o dystysgrif fel prawf digonol i weithredu.

Rydym yn cydnabod bod dadl ynghylch dilysrwydd cyfreithiol llofnodion electronig yn nogfennau statudol y Ddeddf Iechyd Meddwl, bydd AGIC yn parhau i nodi canllawiau Llywodraeth y DU ar gyhoeddi llofnodion electronig/digidol.

Yn y cyfamser, gan ragweld y bydd y tystysgrifau hyn yn cael eu derbyn maes o law, gofynnwn i chi barhau i ddefnyddio'r Ffurflenni Ardystio electronig a ddarperir hyd nes y clywir yn wahanol.

Canllawiau ychwanegol:

Yn 2019, penderfynodd AGIC nad yw ffurflenni T yn gyfreithiol ddilys yng Nghymru ac y dylid eu disodli gan ffurflenni ardystio. Gohiriwyd y gofyniad hwn yn ystod y pandemig.

Fodd bynnag, ein bwriad bellach yw ailgyflwyno'r gofyniad hwn.

O fis Mai 2022, dylai pob ffurflen T newydd gael ei disodli gan ffurflen ardystio Gymraeg. Nid oes angen disodli ffurflenni sy'n bodoli eisoes.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y broses hon neu os ydych eisiau gwneud awgrymiadau am newidiadau, anfonwch e-bost i: AGIC.RSMH@llyw.cymru.

Yn gywir

Rob Jones

Rheolwr Gwasanaeth Adolygu Iechyd Meddwl

AGIC

Gwasanaeth meddyg a benodwyd i roi ail farn (SOAD) – Methodoleg Ddiwygiedig 2022

. Atodiad 1

Achosion brys lle nad oes angen tystysgrifau (adrannau 62, 64B, 64C a 64E)

Nid yw adrannau 57, 58 a 58A yn gymwys mewn achosion brys lle mae angen triniaeth ar unwaith (adran 62). Yn yr un modd, nid oes angen tystysgrif rhan 4A mewn achosion brys lle mae angen triniaeth ar unwaith (adrannau 64B, 64C a 64E).

Mae hyn ond yn berthnasol os oes angen y driniaeth dan sylw ar unwaith i wneud y canlynol:

1. achub bywyd y claf
2. atal dirywiad difrifol yng nghyflwr y claf, ac nid oes gan y driniaeth ganlyniadau corfforol neu seicolegol anffafriol na ellir eu gwrthdroi
3. lliniaru dioddefaint difrifol gan y claf, ac nid yw'r driniaeth yn arwain at ganlyniadau corfforol neu seicolegol anffafriol na ellir eu gwrthdroi ac nid yw'n achosi perygl corfforol sylweddol
4. atal clefion rhag ymddwyn yn dreisgar neu fod yn berygl iddynt eu hunain neu i eraill, a bod y driniaeth yn cynrychioli'r ymyrraeth leiaf sy'n angenrheidiol at y diben hwnnw, nad yw'n arwain at ganlyniadau corfforol neu seicolegol anffafriol na ellir eu gwrthdroi ac nad yw'n achosi perygl corfforol sylweddol.

Os yw'r driniaeth yn driniaeth therapi electrogynhyrfol (neu feddyginiaeth a roddir fel rhan o therapi electrogynhyrfol), dim ond y ddau gategori cyntaf uchod sy'n berthnasol.

Bydd angen i ddarparwyr a chlinigwyr ystyried dau opsiwn lle mae presenoldeb meddyg a benodwyd i roi ail farn naill ai'n amhosibl neu ddim yn ddymunol a bod rhaid parhau â'r driniaeth;

1. **Os oes gan y claf dystysgrif ardystio yn ei lle eisoes, ond nad yw'r dystysgrif yn awdurdodi triniaeth newydd/gwahanol, gall a62(1) fod yn berthnasol.** Dyna beth fydd y rhan fwyaf o glinigwyr darparwyr yn gyfarwydd ag ef – llenwi ffurflen a62 a gynhyrchir yn lleol. Ni fydd angen cynhyrchu ffurflen a62 newydd ar gyfer pob dos, yn enwedig os yw (c) neu (d) uchod yn berthnasol. Dylid adolygu'r angen am a62 parhaus, a'i ddogfennu yn y nodiadau, yn rheolaidd e.e. rownd ward/cyfarfod adolygu'r tîm amlddisgyblaethol neu gyfarfod adolygu arall.
2. **Os nad oes gan y claf dystysgrif ardystio ar waith ond mae wedi cyrraedd diwedd y 'rheol tri mis', gall a62(2) fod yn berthnasol.** Bydd hyn yn golygu bod modd parhau â'r cynllun triniaeth presennol hyd nes y gellir bodloni'r 'gofynion tystysgrif', pan fydd meddyg a benodwyd i roi ail farn yn gallu adolygu'r driniaeth neu hyd nes y bydd cyflwr y claf yn gwella fel y gall gydsynio, a'i fod yn gallu cydsynio, ac y gellir cwblhau T2.

Os bydd a62(2) yn berthnasol, nid oes angen ffurflen arbennig - bydd yn ddigon i'r clinigydd wedi'i gymeradwyo/clinigydd cyfrifol gofnodi yn y nodiadau bod y driniaeth yn parhau y tu hwnt i'r cyfnod o dri mis o dan a62(2), ynghyd â'r cyfiawnhad (naill ai (c) neu (d) uchod) a'r rheswm - nid yw meddyg a benodwyd i roi ail farn ar gael oherwydd COVID-19.

Dylid cynnal adolygiad rheolaidd o'r angen parhaus a dylid dogfennu hyn fel y disgrifir uchod.